

## DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION

*Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023.*

*Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.*

### **Trosolwg Ysgolion**

<b>Manylion</b>	<b>Data</b>
Enw'r ysgol	Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	115
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	8.74%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	30/11/2022
Dyddiad y caiff ei adolygu	31/03/2023
Awdurdodwyd y datganiad gan	Llyr Gilmour Jones
Yn arwain ar y GDD	Helen Oldfield
Llywodraethwr sy'n arwain	Gwenno Murphy

### **Trosolwg Cyllid**

<b>Manylion</b>	<b>Swm</b>
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon:	
Prydau Ysgol am Ddim	£5750
Blynyddoedd Cynnar	£4600
<b>Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon</b>	<b>£10,350</b>

### **Rhan A: Cynllun Strategaeth**

#### ***Datganiad o Fwriad***

*Efallai y byddwch eisiau cynnwys gwybodaeth am:*

- Beth yw eich amcanion yn y pen draw ar gyfer y disgyblion a gefnogir?*
- Sut mae eich cynllun strategaeth bresennol yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion hynny?*

- *Beth yw prif egwyddorion eich cynllun strategaeth?*

*Lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrrhaeddiad dysgwyr drwy gefnogi eu lles, parodrwydd i ddysgu a sgiliau sylfaenol.*

### **Canlyniadau a fwriedir**

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

<b>Canlyniad a fwriedir</b>	<b>Meini prawf llwyddiant</b>
Sicrhau lles dysgywr fel Sylfaen ar gyfer dysgu	Plant yn cael cyfleoedd i fyncyhu cyrsiau preswyl
Sicrhau bod staff cymorth yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf	Hyfforddiant ar asesu ac ymyrraethau
Datblygu dulliau cynnar llythrennedd a rhifedd	Cefnogaeth unigolion a grwpiau bychan
Cefnogi dysgu emosiynol a chymdeithasol disgyblion	Disbylion sydd yn barod i ddysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau

### **Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

Bwriadwn gwario'r arian ar adnoddau, hyfforddiant, staffio a chostau llanw i wireddu'r amcanion uchod.

### **Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £ [10,350]

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn</b>
<i>Staffio – i ddarparu grwpiau neu sesiynau unigol – therapi lego, ymyrraethau llythrennedd a</i>	Parodrwydd i ddysgu Sgor safonol dysgwyr yn gwella

<i>rhifedd fel Dyfal Donc</i>	
<i>Adnoddau - adnoddau chwarae anabledd/gwahanol hil, lego, cyrsiau preswyl I ddisgyblion</i>	Pardorwydd i ddysgu'r disgyblion
<i>Hyfforddiant a chostau llanw – cyrsiau asesu ac ymyrraethau, datblygu system o asesu ar fynediad a gwaelodlin, sylwi arfer dda</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau fod pob dysgwr yn gwneud cynnydd da o'u gwaelodlin.</li> </ul>

## **Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol**

### ***Canlyniadau'r GDD***

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2021 i 2022.

*Defnyddiwyd y grant GDD ar adnoddau i gyfoethogi darpariaeth y disgyblion. Prynwyd adnoddau newydd cyfoes er enghraifft llyfrau ac adnoddau TGCh. Dewiswyd cyfresi o lyfrau i apelio at blant oedd yn derbyn prydiau ysgol am ddim er mwyn denu nhw i ddewis llyfrau ac i ddarllen am bleser. Gwelwyd cynnydd ym mrwdfrydedd y disgyblion tuag at lyfrau a gwersi TGCh.*